

CRhA Ysgol Bodfeurig | COFNODION

Dyddiad Cyfarfod **25/9/19** | **17:30** | Lleoliad **Ysgol Bodfeurig**

Galwyd gan

Claire Lynch

Mynychwyr

Mrs Lliwen Jones – Pennaeth Claire Lynch – Chair

Tamsin Slinn – Trysorydd Katy Woodington

Lowri Harrington-Ysgrifenydd Emily Roberts

Chris Cooper-Jones Eleri Davies

Susan Owen Jon Gamon

Jane Devereaux

AGENDA

1. Adolygiad o'r cofnodion blaenorol -

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17/9/19 gan holl aelodau'r pwyllgor oedd yn bresennol.

Camau wedi'u cwblhau -

Mai cais am statws elusennol wedi ei dderbyn gan HMRC a chafwyd cadarnhad fod CRhA Ysgol Bodfeurig bellach yn elusen gofrestredig ac yn gallu hawlio cymorth rhodd.

Diolch i Janine Bonnet am sefydlu'r dudalen 'Justgiving' sydd wedi codi £1000 hyd yn hyn, gellir hefyd weld thermometr cynnydd codi arian ar wefan PTA Ysgol Bodfeurig <http://www.bodfeurig-pta.cymru/cy/fundraising/> sefydlodd Tamsin yn garedig ar gyfer y CRhA. Hefyd nodir diolch i Elizabeth Frances a'i theulu am drefnu golchfa ceir dros wyliau'r ysgol a godwyd £ 75!

2. 'Crowdfunding'

Trafododd y pwyllgor yr opsiwn o ail-lansio'r dudalen 'Justgiving', ond oherwydd ffi o £15 y mis cytunwyd y byddai'n well os fuasai rhoddion yn cael eu talu'n uniongyrchol i' gyfrif CRhA. Awgrymodd Jane Devereaux daflen a fyddai'n cynnwys manylion am yr hyn yr oeddem yn codi arian ar ei gyfer a'n targed iw ddosbarthu yn nigwyddiadau'r ysgol, yn ogystal ag ar wefan CRhA, Facebook a Twitter. Awgrymodd Tamsin Slinn gall manylion, nod, ffocws a rhesymau dros godi arian gael eu cynnwys yn y daflen deenu mwy o roddion.

I'w weithredu: Jane i ddod o hyd i enghraifft o daflen i'w dangos i Claire a Katy. Claire a Katy i greu'r daflen.

3. Yr angen am ddau wirfoddolwr

Rhywun i rannu rôl ysgrifennydd ar y pwyllgor CRhA, ni ddaeth unrhyw wirfoddolwyr ymlaen yn ystod y cyfarfod.

Daethom o hyd i wirfoddolwr yn ystod y cyfarfod i archwilio'r cyfrifon CRhA.

4. Syniadau Codi Arian

Cyflwynodd Jane Devereaux gynnig a wnaed gan ddyn busnes lleol a fydd yn rhoi comisiwn o 15% ar gyfer unrhyw archebion a wneir drwy Ysgol Bodfeurig ar gyfer ei dŷ bync sydd ger Deiniolen. Awgrymwyd hysbysebu'r tŷ bync ar wefan CRhA, Facebook a Twitter. Awgrymodd Tamsin Slinn y dylem gynnig gostyngiad o 5% ar gyfer unrhyw archeb a wneir trwy'r ysgol ac roedd y CRhA i gadw comisiwn o 10%. **I'w weithredu:** Bydd Jane yn cadarnhau'r manylion gyda pherchennog y tŷ bync.

Awgrymodd Tamin Slinn 'Easyfundraising', sef dull o godi arian trwy siopa ar y we. Nid oedd mwyafrif y pwyllgor yn ymwybodol o'r hyn ydoedd na sut y bu'n gweithio, bydd Tamsin yn creu taflen yn egluro sut mae'n gweithio a sut i gymryd rhan, bydd y daflen yn cael ei dosbarthu i rieni. **I'w weithredu:** Tamsin i greu taflen yn egluro 'Easyfundraising'.

Awgrymodd Eleri Davies noson Ffilm fel rhai oedd bob amser yn boblogaidd, felly cytunwyd ar ddydd Mercher 16eg o Hydref fel y diwrnod i gynnal y digwyddiad, yn syth ar ôl ysgol. Bydd Claire yn ffonio 'Dominos' ac yn ymholi am roddion pïtsas, fel arall bydd cŵn poeth a diodydd i'w gwerthu. **I'w weithredu:** Emily Roberts i hysbysebu Movie Night, Claire i ffonio Dominos a holi am roddion pizza.

Awgrym Jon Gamon oedd rhentu neuadd yr ysgol i'r cyhoedd, trafodwyd isafswm ffi o tua £50, gan y byddai'r gofalwr a ffi galw allan i agor a chloi'r ysgol ar gyfer pob archeb, hefyd ni fyddai'r gegin ar gael i'w rentu a gallai hyn fod yn broblem. **I'w weithredu:** Lliwen Jones i edrych ar reoliadau ar gyfer rhentu'r neuadd, y cyfyngiad o bobl yn y neuadd a dosbarthiad yr adeilad.

Cyflwynwyd dyddiad ar gyfer y disgo Calan Gaeaf blynyddol ar gyfer 25ain o Hydref, ond bydd angen gwirfoddolwyr a pherson i ddirprwyo. Disgo i'w gynnal yn neuadd yr ysgol. **I'w weithredu:** Angen gwirfoddolwyr!

Darllenodd Katy Woodington neges gan Janine Bonnet sydd wedi gwirfoddoli i gynnal arwerthiant llyfrau. **I'w weithredu:** Janine i gysylltu ag athrawon.

Cynigiodd Jane Devereaux aduniad Ysgol Bodfeurig, ac awgrymodd Lliwen Jones y gallai gydfynd â noson win a chaws. Chris Cooper i roi gwin. Bydd angen goruchwyliwr a gwirfoddolwyr. **I'w weithredu:** Angen gwirfoddolwyr a'r dyddiad i fod yn sefydlog.

Penderfynwyd ar ddyddiad y ffair Nadolig, dydd Iau 28ain o Dachwedd, 3-5pm **Gweithredu:** dyddiad i'w gadarnhau gyda Anti Anwen. Manylion pellach i'w trafod yn y cyfarfod CRhA (PTA) nesaf.

Awgrymodd Emily Roberts y dylem gofrestru ar gyfer cynllun ailgylchu 'ink cartridges' ble derbynir rhoddion am 'ink cartridges' gwag, caniau a pheccynnau creision hefyd. **Gweithredu:** Tamzin i edrych i mewn i gofrestru'r ysgol ar gyfer ailgylchu 'ink cartridges'/creision/caniau.

Cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 13eg o Dachwedd 17:30

Gweithredu - Claire i hysbysebu dyddiad / amser y cyfarfod, ac i wneud rhestr o arweinwyr a gwirfoddolwyr sydd eu hangen ar gyfer codi arian.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:30

Cofnodion wedi'u paratoi gan: Lowri Harrington (Ysgrifennydd CRhA)

